DFPS/SF/M.27

18 Hydref 2005

K W Finch

01492 576201

David Jones
Swyddfa Archwilio Cymru
Llawr Cyntaf, Uned A
Canolfan Fusnes Parkway
Park Ddiwydiannol
Sir y Fflint
CH5 2LE

Annwyl David

**Cynrychiolaethau Rheoli mewn perthynas â Chyfriflen 2004/2005**

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 17 Hydref 2005, rwyf yn cadarnhau, cyn belled ag yr wyf yn gwybod ac yn credu, ac wedi gwneud yr ymholiadau priodol, fod yr ymholiadau a ganlyn yn cael eu cyflwyno i chi mewn cysylltiad efo'ch archwiliad am y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2005. Nodwch os gwelwch yn dda nad wyf yn gwneud sylwadau ar unrhyw fater nad wyf yn ymwybodol ohono.

1. Nid oes unrhyw asedau/ymrwymiadau arwyddocaol neu weithgareddau ôl-fantolen, heblaw'r rhai hynny sydd wedi'u datgelu yn y datganiadau ariannol. Yn arbennig,

    - nid oes unrhyw eitemau arwyddocaol yn aros ymgyfreithiad;
    - nid oes unrhyw ymrwymiadau materol na materion cytundebol, heblaw'r rhai hynny sydd wedi'u datgelu'n barod yn y datganiadau ariannol.

2. Mae holl drafodion yr Awdurdod wedi'u hadlewyrchu a'u cofnodi'n gywir yn y cofnodion cyfrifo.

3. Nid oes unrhyw gynlluniau na bwriadau allai effeithio ar ddosbarthiad neu brisiad asedau a chyfrifoldebau a bod unrhyw leihad parhaol mewn asedau sefydlog wedi'i bennu.

4. Ni chafwyd unrhyw:

    - Anghysondeb yn ymwneud â'r rheolwyr sy'n chwarae rhan arwyddocaol yn y system o reolaeth fewnol y gwaith cyfrifo. Wrth ddatgan hyn, rwyf wedi cymryd mai ystyr "afreoleidd-dra" ydi un o natur twyll.
    - Anghysondebau yn ymwneud â chyflogeion eraill allai gael effaith faterol ar y datganiadau ariannol;
    - Cyfathrebiadau gan asiantaethau rheoli sy'n ymwneud â diffyg cydsynio â, neu ddiffygiant mewn, ymarferion adrodd ariannol allai gael effaith faterol ar y datganiadau ariannol.

5. Nid oes unrhyw is-gwmnïau, cwmnïau cysylltiol, fentrau ar y cyd na threfniadau ar y cyd heblaw'r rheini sydd wedi'u datgelu yn y cyfriflenni ariannol ac mewn nodiadau cysylltiol.

6. Mae'r datganiadau ariannol a/neu'r nodiadau i'r cyfrifon yn datgelu unrhyw -

   - Achosion neu achosion posib o dorri cyfreithiau neu reoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau i'w datgelu yn y datganiadau ariannol neu fel sail ar gyfer cofnodi colled wrth gefn;

   - Ffactorau materol eraill fyddai'n dylanwadu ar farn darllenwyr y mantolenni.

7. Nid yw asedau'r Awdurdod wedi'u defnyddio mewn unrhyw ffordd fel gwarant ar gyfer benthyciadau.

8. Mae'r holl ymrwymiadau dan brydlesau ariannol neu gytundebau hurbrynu wedi'u datgelu yn y cyfrifon.

9. Nid oes unrhyw warantau ariannol wedi'u rhoi i drydydd parti.

10. Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â phob agwedd o'r cytundebau cytundebol fyddai'n gofyn gwneud addasiad i, neu wneud datgeliad yn y datganiadau ariannol.

11. Nid oes unrhyw drafodion materol eraill gyda phartïon perthnasol (fel y maent wedi'u diffinio gan FRS 8 a'r LG SORP), heblaw'r rhai hynny sydd wedi'u cofnodi a'u datgelu yn y datganiadau ariannol.

12. Mae'r holl fuddion heb eu cyllido (e.e. blynyddoedd ychwanegol dewisol) wedi'u hystyried wrth gasglu'r ffigurau FRS17 sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol.

Trefnwyd i roi copi o'r llythyr hwn i'r Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Tân.

Yn gywir

Trysorydd

Copio i: Ian Miller, Swyddog Monitro
Simon Smith, Prif Swyddog Tân